



EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024

Cystadleuaeth 127 – Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau

Ystlum, Myrddin ap Dafydd

YSTLUM

Ystlum, yn dy ystum
Ben i lawr
Mewn ogof neu atig
Ers y wawr,
Wedi cau d'adenydd
Fel cau ymbarél
Ac ymhell o edrych
Yn beth bach del,
Be sy'n dy gadw
Yn llofft dy dŷ?

*Disgwyl tywyllwch,
Disgwyl y du.*

Ystlum, pa ystyr
Sydd i beth fel hyn?
Pam na chei ben
Ac ysgwyddau gwyn?
Pam na chei adain
Yr eryr balch?
Pam na chei lygaid
Y barcud neu'r gwalch
Wrth iti hela'n
Y coed a'r rhos?

*Gwell na'r golau
Yw sŵn y nos.*

Ystlum, yn ystod
Ein sgwrs fach ni,
Llonyddwch y machlud
Sy'n dy ddeffro di;
Mae llwybrau duon
Yn agor o'th ddôr,
Atsain cysgodion
Yn dy glustiau yn gôr;
Mae'r nos yn ein hymlid,
Rhoi clo ar ein dydd ...

*Dyma fy llygaid,
Dyma fi'n rhydd.*

Myrddin ap Dafydd